

Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

#EndingHomelessness #HousingMattersWales
#HousingSupport #PreventionPreventionPrevention



2022
-
2026



Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
1a. Diben y Strategaeth	4
1b. Cyd-destun deddfwriaeth a pholisi	5
Cyd-destun Cenedlaethol	6
Cyd-destun Rhanbarthol Lleol	8
1c. Gweledigaeth ac Egwyddorion	8
2. Asesiad Anghenion	9
2a. Proses Asesu Anghenion	9
Datganiad Angen (ynghlwm)	9
3. Blaenoriaethau Strategol	10
4. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	12
4a. Rhanddeiliaid yr Ymgysylltwyd â nhw	12
4b. Adborth Rhanddeiliaid	12
5. Asesiadau Effaith	14
6. Gweithredu, monitro ac adolygu'r Strategaeth	15
Gweithio gyda Phartneriaid	15
Ffynonellau Cyllid	15
Trefniadau monitro, adolygu a gwerthuso	15
Atodiad A - Cynllun Gweithredu	16
Atodiad B - Cynllun Ailgartrefu Cyflym	25

1. Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu dull strategol Sir y Fflint ar gyfer cymorth tai ac atal digartrefedd ac mae'n bodloni gofynion statudol i'r Awdurdod Lleol gael Strategaeth Digartrefedd o dan Adran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014.

Mae'r Strategaeth wedi cymryd gweledigaeth Llywodraeth Cymru i ystyriaeth ac mae'n anelu i atal digartrefedd a'r symud trawsnewidiol sydd ei angen i ddull ailgartrefu cyflym ac mae wedi'i lywio gan Ganllawiau Ymarfer Cymorth Tai Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol o Ebrill 2020 (diweddarwyd ym mis Mawrth 2021).

Mae'r Strategaeth yn uchelgeisiol ac yn edrych ar adeiladu ar y pethau cadarnhaol sylweddol a gyflawnwyd ers Mawrth 2020 pan wnaeth y pandemig iechyd Covid daro'r DU a rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd i holl Gyngorau fabwysiadu'r dull "Pawb i Mewn" i ddiogelu pobl ddigartref a'r sawl mewn perygl o gysgu ar y stryd.

Gyda mwy o bobl mewn tai dros dro ac yn cael eu cefnogi i adael digartrefedd, rydym yn gwybod ein bod wedi gwneud yn dda i helpu pobl sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y pandemig Covid. Wrth i ni nawr ganolbwyntio ar adfer o'r pandemig, rydym yn gwybod bod yn rhaid i ni wneud mwy i fynd i'r afael ag achosion digartrefedd a dileu rhwystrau i bobl allu symud a setlo mewn tai diogel hirdymor ar adeg pan mae'r farchnad dai yn newid a'r galw am dai fforddiadwy yn cynyddu.

Mae'r Strategaeth hon yn dangos bod rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn llawer mwy nag adeiladu mwy o dai yn unig, ond mae'n cydnabod bod cyflenwi tai fforddiadwy o ansawdd uchel yn haen allweddol o fewn ein holl uchelgeisiau i ddod â digartrefedd i ben yn Sir y Fflint. Mae elfennau allweddol eraill yn cynnwys canolbwynt clir ar waith partneriaeth, ymyrraeth gynt i leihau anghenion o ran cymorth tai a'r perygl o ddigartrefedd a datblygu ystod eang o weithgareddau atal, gan gynnwys gwasanaethau cynnal sy'n ymwneud â thai o ansawdd uchel.

Nid cyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd yn unig yw atal digartrefedd, mae'n fater a rennir ac "o bwys i bawb." Mae'r Strategaeth hon yn darparu gweledigaeth glir i ddod â digartrefedd i ben a goresgyn materion tai, i holl bartneriaid sy'n gweithio i wella bywydau pobl yn Sir y Fflint. Drwy gydweithio gallwn i gyd gyflawni mwy.

Mae'r Strategaeth hefyd yn canolbwyntio ar les ein gweithlu a'r gwasanaethau pwysig a ddarperir gan ein staff i bobl Sir y Fflint. Mae'r 2 flynedd ddiwethaf wedi bod yn anodd iawn i bawb yn Sir y Fflint ac mae hyn yn cynnwys staff sydd wedi bod yn gweithio o dan bwysau mawr oherwydd Covid. Rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi ein cydweithwyr i gyd a byddwn yn buddsoddi ynddynt fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn llawn egni i gyflawn ein huchelgais o roi terfyn ar ddigartrefedd a goresgyn problemau tai yn Sir y Fflint.

1a. Diben y Strategaeth

Mae Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Sir Y Fflint yn gosod cyfeiriad strategol Cyngor Sir Y Fflint o ran atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai ar gyfer y pedair blynedd nesaf (2022-2026). Byddwn yn cwblhau adolygiad hanner ffordd mewn 2 flynedd (2024) ac yn adnewyddu ein cynllun gweithredu mewn ymateb i beth rydym yn ei gydnabod sy'n dirlun heriol a newidiol wrth i ni adael y pandemig covid.

Mae'r Strategaeth hon yn gosod y blaenoriaethau allweddol i'r awdurdod lleol a'n partneriaid wrth edrych ar ein hymdrechion i roi terfyn ar ddigartrefedd a goresgyn problemau tai ac mae hyn wedi'i ddatblygu ar gefn proses asesu anghenion cynhwysfawr. Rydym hefyd wedi ymgysylltu ag ystod eang o rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod y Strategaeth yn bodloni anghenion y bobl rydym yn eu gwasanaethu ac yn cael ei llywio gan farn a gwybodaeth y partneriaid yr ydym yn gweithio gyda nhw.

Mae'r Strategaeth hon yn bodloni'r gofyniad statudol presennol i'r awdurdod lleol gael strategaeth ddigartrefedd fel bo'r angen o dan Rhan o'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi mabwysiadu Strategaeth Digartrefedd Gogledd Cymru 2018-2022 yn flaenorol, ond rydym nawr yn gweithredu ein Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai ein hunain. Mae ein hymrwymiad i waith rhanbarthol yn parhau'n gadarn ac rydym wedi adolygu Strategaeth Digartrefedd Gogledd Cymru 2018-2022 ac mae elfennau o'r Strategaeth honno wedi eu hymgorffori yn y Strategaeth hon.

1b. Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r saith nod yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi llywio datblygiad y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai, drwy sicrhau ein bod yn ystyried sut rydym yn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill, yn ogystal ag edrych ar sut y gallwn atal problemau a defnyddio dull mwy cysylltiedig i gyflawni'r strategaeth.

Cymru ffyniannus

Cymdeithas arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth wedi'i haddysgu'n dda a medrus mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd gwaith, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau cyflogaeth o ansawdd uchel.

Cymru Gydnerth

Cenedl sy'n cynnal ac yn ymestyn amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithio'n iach sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol gyda'r gallu i addasu a newid (er enghraifft newid hinsawdd).

Cymru iachach

Cymdeithas ble mae lles corfforol a meddyliol pobl wedi cynyddu a ble mae dewisiadau ac ymddygiad o fudd i iechyd y dyfodol yn cael eu deall.

Cymru mwy cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo eu cefndir neu amgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Cymru â chymunedau cydlynol

Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd wedi cysylltu'n dda.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn cymryd i ystyriaeth pa un a all gwneud peth o'r fath wneud cyfraniad cadarnhaol i les byd-eang.

Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r strategaeth yn bodloni gofynion statudol presennol Deddf Tai (Cymru) 2014. Wrth ei datblygu, mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu'r Strategaeth Dai a Digartrefedd, gan gynnwys y nod a'r blaenoriaethau perthnasol. Mae Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Cyngor Sir y Fflint wedi'i thanseilio gan y ddeddfwriaeth a pholisi cenedlaethol canlynol:

- **Deddf Tai (Cymru) 2014**

Nod y Ddeddf hon yw gwella cyflenwad, ansawdd a safonau tai yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys rhoi mwy o ddyletswydd ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Mae'r Grant Cymorth Tai yn gwneud cyfraniad sylweddol i weithredu Rhan 2 o'r Ddeddf hon. Mae Rhan 2 yn canolbwyntio ar atal digartrefedd. Mae hefyd yn lleihau neu'n atal yr angen am ymyriadau mwy costus i wasanaethau cyhoeddus eraill.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf hon yn anelu i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, drwy osod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ganolbwynt i holl benderfyniadau. Un elfen allweddol o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw ffocws ar atal, sy'n cyd-fynd â nodau canolog y Grant Cymorth Tai.

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Anelu i wella lles pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae Adran 9 yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"); yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

- **Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd: Cynllun Gweithredu 2021 i 2026 lefel uchel**

Mae'r Cynllun gweithredu yn anelu i gyfeirio gweithgaredd ar lefel uchel, am y gwaith sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a'i bartneriaid i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

- **Deddf Iechyd Meddwl 2014**

Daeth y Ddeddf Iechyd Meddwl i rym ar 1 Gorffennaf 2014. Mae'n gosod fframwaith a fwrriadwyd i hybu arfer adferiad, lleihau triniaeth orfodol a diogelu a chefnogi hawliau pobl sy'n byw â salwch meddwl.

- **Deddf Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

Nod y Ddeddf hon yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru tuag at bob math o drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i wella trefniadau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o, ac atal, diogelu a chefnogi dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig, trais rhywiol a chaethwasiaeth fodern.

- **Canllawiau Ymarfer Grant Cymorth Tai 2020**

Cafodd Canllawiau Grant Cymorth Tai eu cyhoeddi yn Ebrill 2020. Mae'r Grant Cymorth Tai yn gyfuniad o dri grant presennol; Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd a Grant Cynhaliad Rhentu Doeth Cymru. Mae'r grant yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol i ddarparu, gweinyddu a chomisiynu gwasanaethau i fodloni gweledigaeth a diben craidd y grant.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu'n helpu pobl a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd a chadw llety.

Mae'r Grant Cefnogi Tai yn cefnogi pobl ddiamddiffyn i fynd i'r afael â phroblemau, sydd weithiau'n lluosog, maent yn eu hwynebu megis dyledion, cyflogadwyedd, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol a materion iechyd meddwl.

Cyd-destun Cenedlaethol

- **Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010**

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i holl gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys y cyngor, i drechu rhagfarn, symud cydraddoldeb cyfleoedd yn ei flaen a hyrwyddo perthnasau da. Ymgwymerwyd ag asesiad o effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw anghydraddoldebau posibl sy'n codi o ddatblygiad a chyflwyniad y cynllun hwn.

- **Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer pobl o dramor i fod yn gymwys neu'n anghymwys ar gyfer dyraniad o lety tai o dan Adran 6 Deddf Tai 1996 ("y Ddeddf") ac am gymorth tai o dan Adran 7 o'r Ddeddf.

- **Cod Canllawiau Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd, 2016**

Mae'r Cod hwn yn Ganllaw a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried y Cod hwn wrth ymarfer eu swyddogaethau mewn cysylltiad â dyraniadau a digartrefedd. Mae'r Cod hwn yn dod mewn dwy ran. Mae Rhan 1 yn ymwneud â dyrannu llety yn unol â Rhan 6 Deddf Tai 1996 ac er y diweddarwyd i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith a chyfraith achosion perthnasol, mae'n dilyn yr un fformat â rhifyn 2012 o'r Cod yn bennaf.

Mae Rhan 2 o'r Cod yn cynnwys Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014, sy'n diwygio ac yn cyfuno holl ddeddfwriaeth digartrefedd blaenorol. Mae'n egluro'r ddeddfwriaeth newydd ac yn ei gosod yng nghyd-destun polisi presennol Llywodraeth Cymru.

- **Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn yr Ystâd Ddiogeled**

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y llwybr ar gyfer bodloni anghenion tai plant, pobl ifanc ac oedolion a gynhelir yn y ddalfa fydd yn adsefydlu yng Nghymru.

- **Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion**

Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion yn cefnogi pobl ifanc sydd ar eu taith i annibyniaeth a llwyddiant economaidd drwy gynnig opsiynau a chynghor tai, a thrwy atal digartrefedd.

- **Gorchymyn Digartrefedd (Addaswydd Llety) (Cymru) 2015**

Rhan 1 yn nodi materion ychwanegol y dylai awdurdodau eu cymryd i ystyriaeth. Rhan 2 yn nodi pan nad yw Gwely a Brecwast a llety a rennir yn addas i'w defnyddio ar gyfer llety dros dro. Rhan 3 yn nodi addaswydd llety sector rhentu preifat ar gyfer rhoi terfyn ar ddyletswydd adran 75 i ymgeiswyr digartref.

- **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**

Nod y Ddeddf yw ei gwneud yn symlach ac yn haws i bobl rentu cartref, gan ddileu darnau cymhleth o ddeddfwriaeth gyfredol gydag un fframwaith cyfreithiol clir.

Bydd pobl sy'n cael eu hunain mewn amgylchiadau anodd hefyd yn elwa o'r Ddeddf. Bydd yn helpu i atal sefyllfaoedd digartrefedd cyfredol lle mae tenant ar y cyd yn gadael y denantiaeth, gan felly ddod â diwedd ar denantiaeth i bawb arall. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran sut y gall rhywun fod yn olynnydd i denantiaeth, gyda hawl olyniaeth i ofalwyr yn cael ei chreu.

- **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod y Gymraeg gyda'r un statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol

Cyd-destun Rhanbarthol Lleol

Ar lefel leol, mae'r strategaeth hon yn cyfrannu at y meysydd gwaith canlynol:

- Cynllun Cyngor Sir y Fflint 2021 - 2023
- Strategaeth Dai a Chynllun Gweithredu Sir y Fflint 2019-2024
- Prosbectws Sir y Fflint 2021
- Diweddariad Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Sir y Fflint 2018 (eglwyrwyd yn fersiwn adendwm Chwefror 2020).
- Cynllun Lles ar gyfer Sir y Fflint 2017 - 2023

1c. Gweledigaeth ac Egwyddorion

Wrth weithio i gyflawni ein gweledigaeth o roi terfyn ar ddigartrefedd a goresgyn problemau tai yn Sir y Fflint, rydym wedi mabwysiadu nifer o egwyddorion craidd a fydd yn ein helpu ni a'n partneriaid i gyflawni ein hamcanion a rennir a gallu cyflawni'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu. Dyma'r egwyddorion:-

- Byddwn yn sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor wedi ymrwmo i roi terfyn ar ddigartrefedd yn Sir y Fflint.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i atal digartrefedd a ble na ellir ei atal byddwn yn sicrhau ei fod yn brin, yn fyr a heb ei ailadrodd.
- Byddwn yn cefnogi pobl Sir y Fflint i fyw bywydau iach ac annibynnol o fewn cartrefi diogel a chymunedau gwydn.
- Byddwn yn darparu gwasanaethau cymorth o ansawdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi eu llywio drwy gynnwys defnyddwyr gwasanaeth.
- Byddwn yn hybu gonestrwydd, parch ac urddas rhwng y bobl sy'n darparu ein gwasanaethau a'r bobl sy'n cael budd o'n gwasanaethau.
- Byddwn yn dathlu llwyddiant ein gwasanaethau a buddsoddi yn ein gweithlu i gyflawni'r lefelau uchaf o gefnogaeth.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws rhanbarth Gogledd Cymru ar heriau a rhennir a ble mae cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn codi.

*Rhoi terfyn
ar ddigartrefedd,
goresgyn problemau tai
a darparu cefnogaeth sy'n
canolbwyntio ar yr unigolyn
sy'n bodloni anghenion pobl
yn Sir y Fflint, drwy weithio
mewn partneriaeth
ac ymyrraeth
fuan*

2. Asesiad Anghenion

2a. Proses Asesu Anghenion

Defnyddiwyd ystod o dechnegau ymgysylltu i gasglu a dadansoddi data i bennu Asesiad Anghenion Sir y Fflint. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori gydag ystod eang o rhanddeiliaid gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth sydd yn / neu wedi defnyddio gwasanaeth digartrefedd gan gynnwys Sefydliadau Trydydd Sector. Cafodd hyn hefyd ei gefnogi gan ystadegau a data gan Wasanaeth Digartrefedd Statudol Sir y Fflint a'r Porth Grant Cymorth Tai.

Mae ffynonellau allweddol o wybodaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r Asesiad Anghenion wedi eu rhestru isod:

- Asesiad o Anghenion y Boblogaeth
- Prosbectws Cyngor Sir y Fflint 2021
- Asesiad Lles Awdurdod Lleol
- Ystadegau digartrefedd a data tai arall fel rhestrau aros
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Asesiad anghenion VAWDASV rhanbarthol
- Unrhyw ymchwil/cyhoeddiad cenedlaethol perthnasol
- Data deilliannau
- Data Anghenion o'r Porth Cymorth Tai
- Data angen nas diwallwyd dros y 12 mis diwethaf gan ddarparwyr, adolygiadau digartrefedd

2b. Prif Ganfyddiadau a Chasgliadau

Mae yna anghydbwysedd rhwng llety person sengl a'r nifer o bobl ifanc sy'n datgan eu bod yn ddigartref ac yn aros mewn llety dros dro am gyfnodau o amser sylweddol. I fynd i'r afael â'r mater, mae Sir y Fflint wedi dechrau gweithio i'r Model Ail-gartrefu Cyflym fydd yn cynnig lefelau o gefnogaeth amrywiol i sicrhau bod aelwydydd sy'n cyflwyno yn cael y gefnogaeth gywir pan fydd angen.

Mae pobl ddigartref sengl o dan 35 oed, pobl gydag anghenion cymorth iechyd meddwl a phobl gyda materion troseddu yn cynrychioli cyfran uchel o'r cyflwyniadau i'r tîm digartrefedd. Mae anghenion cymorth yn fwy cymhleth gyda iechyd meddwl, troseddu a cham-drin domestig yn cynyddu.

Nid yw digartrefedd yn ymwneud â thai yn unig ac mae gan lawer o'r bobl sy'n profi materion tai a digartrefedd anghenion cymorth cymhleth yn aml. Rydym yn bwriadu gwella llwybrau cefnogaeth a sicrhau bod yna ddull gweithio aml-asiantaeth i ddelio gydag anghenion cymhleth. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad i holl wasanaethau yn amserol.

Mynediad i'r Sector Rhentu Preifat Tai cymdeithasol cyfyngedig, galw cynyddol ac amseroedd aros hwy yn golygu bod cefnogi pobl i gael mynediad i'r sector rhentu preifat yn bwysicach nag erioed. Cael swyddogion ymroddedig yn gweithio gyda landlordiaid, asiantaethau gosod tai a darpar rentwyr preifat i ddileu rhwystrau i sicrhau cartref rhentu preifat yn Sir y Fflint.

Materion recriwtio oherwydd contractau tymor byr, graddfa gyflog. Lles staff a gallu cadw staff gyda thelerau ac amodau da ar draws holl brosiectau comisiynu. Sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu ym mhob maes a bod staff yn cael eu cefnogi yn defnyddio dull amlasiantaeth

Ailgomisiynu holl brosiectau Grant Cymorth Tai i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion pobl sy'n cael mynediad i'r gwasanaethau.

[Datganiad Angen](#)

[Prosbectws](#)

3. Blaenoriaethau Strategol

Mae Cyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid wedi cytuno i ddilyn blaenoriaethau strategol ar gyfer darparu'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi eu datblygu mewn ymateb i wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses asesu anghenion ac ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r blaenoriaethau hefyd yn alinio gyda pholisi a chanllawiau corfforaethol ehangach Llywodraeth Cymru.

Blaenoriaeth 1 - Mabwysiadu Ymyrraeth Fuan a Gweithgareddau Atal a dargedwyd

Mae ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phroblemau tai drwy'r Grant Cymorth Tai yn cael ei groesawu ac mae'n ein galluogi i gynnig mwy o gefnogaeth ddwys a dargedwyd at bobl ifanc mewn perygl o ddigartrefedd a'r sawl sy'n ei chael hi'n anodd byw'n annibynnol. Mae yna hefyd angen ymrwymiad parhaus gan holl wasanaethau cyhoeddus a grwpiau trydydd sector sy'n gweithio yn Sir y Fflint i ddarparu gwasanaethau sy'n galluogi pobl i gael ansawdd bywyd da a lleihau tloedi a chaledi, gan y bydd hyn yn lleihau'r risgiau sy'n ymwneud â phroblemau tai ac yn atal pobl rhag profi digartrefedd.

Rydym yn gwybod mai'r ymyrraethau cynharaf yw'r mwyaf cost effeithiol ac sy'n gallu cael yr effaith mwyaf sylweddol. Byddwn yn cryfhau systemau ar gyfer nodi pobl â phroblemau tai a'r sawl sydd mewn perygl o ddigartrefedd yn gynt. Byddwn yn sicrhau bod cefnogaeth a dargedwyd ar waith gynted â phosibl. Rydym yn gwybod bod grwpiau penodol o bobl mewn mwy o berygl o ddigartrefedd a byddwn yn sicrhau bod gan y Cyngor a'n partneriaid lwybrau a phrotocolau priodol i ddangos cydweithio a chefnogaeth i bobl mewn mwy o berygl o galedi tai a digartrefedd.

Blaenoriaeth 2 - Cryfhau Dulliau Canolbwytio ar yr Unigolyn ac Ymateb i Anghenion Cymhleth

Mae llawer o'r bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw yn profi heriau sylweddol o amgylch eu lles personol a'i chael hi'n anodd oherwydd angen nas diwallwyd yn eu bywydau beunyddiol. Mae'r anghenion hyn yn gallu bod yn sylweddol, cymhleth ac nid ydynt yn digwydd ar wahân yn aml. Er bod gwasanaethau sy'n ymwneud â chymorth tai yn gallu cefnogi pobl i oresgyn llawer o faterion, mae angen gweithio mewn partneriaeth mwy effeithiol a llwybrau cliriach o gefnogaeth wrth ddelio gyda rhai meysydd o fywydau pobl. Mae hyn yn gallu cynnwys ond nid yw wedi'i gyfyngu i ymddygiad troseddol, camddefnyddiwr sylweddau, anabledau dysgu, iechyd meddwl a hanes o gamfanteisio neu gam-drin domestig.

Rydym yn gwybod nad yw digartrefedd yn aml am dai yn unig a bod llawer o'r bobl sy'n profi caledi tai a digartrefedd yn aml ag anghenion cymorth cymhleth. Byddwn yn gwella llwybrau ar gyfer cefnogaeth a sicrhau bod gwaith amlasiantaeth yn ganolbwyt i'n dull o ddelio gydag anghenion cymhleth. Byddwn yn gwrandao ar y bobl sydd angen ac sy'n defnyddio ein gwasanaethau a byddwn yn defnyddio eu hadborth i sicrhau bod ein gwasanaethau yn addas.

Blaenoriaeth 3 - Datblygu'r Rhaglen TrACE

Mae yna angen i fwy o broffesiynau a sefydliadau fod yn ymwybodol o effaith trawma ar y bobl rydym yn eu cefnogi a'r effaith sylweddol a negyddol mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) yn gallu ei gael ar ein preswylwyr. Mae holl wasanaethau a staff angen ystyried eu rôl i atal, lleddfu a delio gyda ACEs, i sicrhau dull integredig ac arloesol ar gyfer iechyd a lles yn gyffredinol, sy'n cefnogi gwaith atal ac ymyrraeth gynnar. Felly, rydym eisieu cefnogi gwasanaethau i ddeall y maes gwaith hwn yn well a sicrhau bod gwasanaethau yn cael cymorth i ddatblygu eu dulliau ar gyfer y Rhaglen TrACE a'n bod yn comisiynu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cael eu llywio gan drawma ac ymwybyddiaeth ACE.

Rydym yn gwybod bod problemau tai a digartrefedd yn gallu bod yn drawmatig i bobl. Rydym hefyd yn gwybod y bydd llawer o bobl yn Sir y Fflint wedi profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs). Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn deall trawma ac yn ymwybodol o ACE a byddwn i gyd yn dysgu o'r gwasanaethau hynny sydd eisoes yn cyflawni arfer da yn y maes gwaith hwn

3. Blaenoriaethau Strategol

Blaenoriaeth 4 - Cefnogi Datblygiad Gweithlu a Gwytnwch

Mae'n bwysig bod yna gydnabyddiaeth bod ymateb i'r galw presennol a'r dyfodol am gefnogaeth tai a gwasanaeth digartrefedd yn Sir y Fflint yn her sylweddol. Mae buddsoddi yn y bobl sy'n darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn yn bwysig i sicrhau bod y gweithlu yn fedrus, gwydn ac yn barod am yr heriau sy'n eu hwynebu. Ystod o hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth ar draws holl ddarparwyr gwasanaeth, ynghyd â thelerau ac amodau deniadol yn sicrhau y gall y sector gynnal a denu gweithlu medrus.

Rydym yn gwybod mai ein gweithlu yw ein hased mwyaf a byddwn yn eu cefnogi i ddarparu'r safonau uchaf o gefnogaeth cysylltiedig â thai a gwasanaethau atal digartrefedd. Byddwn i gyd yn gweithio'n gadarnhaol ac yn greadigol tuag at ddigartrefedd ac yn goresgyn problemau tai yn Sir y Fflint ac yn cefnogi a pharchu'r naill a'r llall ar hyd y ffordd.

Blaenoriaeth 5 - Adolygu a gwella Cynnig Tai Sir y Fflint

Nid yw tai yn ei hun yn ddatrysiaid i roi terfyn ar ddigartrefedd; ond mae'n elfen allweddol. Gyda chynlluniau uchelgeisiol i adeiladu mwy o dai fforddiadwy, byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu mwy o gartrefi i bobl Sir y Fflint. Rydym hefyd angen gwella mynediad i'n Sector Rhentu Preifat lleol ar adeg pan mae'r farchnad leol yn newid ar ôl Covid. Mae pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn dweud eu bod eisiau gweld mwy o dai â chymorth sydd nid yn unig yn cynnig gwasanaethau cefnogaeth ardderchog ond hefyd yn cynnig llety o ansawdd uchel ar gyfer pobl ddiameddifyn. Dros amser a gyda mynediad da i ddewisiadau tai eraill bydd dibyniaeth ar dai dros dro a brys yn lleihau.

Rydym yn gwybod bod rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn golygu mwy nag adeiladu mwy o dai ac mae'n rhaid i ni wneud y defnydd gorau o'r ystod eang o dai sydd gennym yn Sir y Fflint ar hyn o bryd. Byddwn yn gwneud hyn tra hefyd yn darparu rhaglen adeiladu uchelgeisiol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd uchel. Mae'n rhaid i ni sicrhau y gallwn fodloni amrywiol anghenion tai a llety'r boblogaeth leol.

Blaenoriaeth 6 - Symud tuag at ddull "Ailgartrefu Cyflym"

Mae ailgartrefu cyflym yn ystyried darparu tai diogel, hunangynaliol i bobl sy'n profi digartrefedd mor fuan â phosibl cyn mynd i'r afael â'u hanghenion am gymorth. Nid oes yna unrhyw ofyniad i bobl gael eu hasesu cyn symud i lety. Bydd datblygu 'Cynllun Pontio' yn llywio'r dull sy'n gweld gwasanaethau statudol a chefnogaeth Sir y Fflint yn symud tuag at ailgartrefu cyflym fel y dull diofyn ar gyfer atal a gwella digartrefedd. Bydd y Cynllun Pontio yn darparu map ffordd ar gyfer y siwrnai hon a sicrhau bod holl wasanaethau Sir y Fflint yn croesawu'r cyfleoedd dros newid ein dulliau, tra hefyd yn datblygu arferion cadarnhaol presennol.

Rydym yn gwybod bod symud i ddull Ailgartrefu Cyflym yn cymryd amser, ond rydym wedi ymrwmo i groesawu'r her hon ac yn canolbwyntio ar sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn fyr ac nid yn ailadrodd. Byddwn yn datblygu ac yn mabwysiadu ein Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym gyda chefnogaeth ein partneriaid a sicrhau bod barn bobl sy'n wynebu digartrefedd yn ganolbwynt i'r broses newid hon.

Mae'r camau sydd eu hangen i'n helpu i gyflawni blaenoriaethau lleol ac amserlenni ar gyfer cwblhau wedi eu hamlinellu o fewn ein Cynllun Gweithredu Rhaglen Cymorth Tai sydd ynghlwm fel Atodiad A.

4. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Ymgynghorwyd â phartneriaid a gwasanaethau mewnol ac allanol gyda'r broses o ddatblygu'r strategaeth, ymgynghorwyd yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd yn y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pump ffordd o weithio.

4a. Rhanddeiliaid yr Ymgysylltwyd â nhw

Defnyddiwyd y ffynonellau ymgysylltu canlynol:

- Holiadur Defnyddiwr Gwasanaeth HSG Gogledd Cymru drwy:
<https://www.conwy.gov.uk/sep/snap/hsgstrategy/user/cy/>
- Holiadur Darparwr HSG Gogledd Cymru
<https://www.conwy.gov.uk/sep/snap/hsgstrategy/provider/cy/>

4b. Adborth Rhanddeiliaid

Darparwyr

Cafodd holiadur Darparwr rhanbarthol ei anfon at bob un o awdurdodau Gogledd Cymru a lluniodd y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol yr ymatebion i bob awdurdod. Mae copi o'r canfyddiadau ynghlwm isod.

Y prif themâu sy'n dod allan o'r holiadur darparwr:-

- Angen mwy o lety i allu symud i ddull ailgartrefu cyflym.
- Mae angen mwy o dai fforddiadwy.
- Mynediad i PRS - cefnogaeth i denantiaid a landlordiaid
- Tai â chymorth i bobl gyda materion cymhleth neu amryfal
- Mae angen mynediad haws i wasanaethau iechyd meddwl
- Mae yna bellach restrau aros hirach am apwyntiadau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl
- Mwy o hyfforddiant/ymwybyddiaeth o beth yw Ailgartrefu Cyflym. Ymateb ar y cyd.
- Rhagor o hyfforddiant PIE i holl staff
- Problemau recriwtio staff cymorth - oherwydd contractau tymor byr, graddfa gyflog, ychydig neu ddim diddordeb mewn hysbysebion swyddi.
- Swyddogion celcio ym mhob awdurdod.

[Cysylltu i'r crynodeb o'r adborth Holiadur Darparwr](#)

4. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Defnyddwyr Gwasanaeth

Cafodd holiadur Defnyddiwr Gwasanaeth rhanbarthol ei anfon gan bob un o awdurdodau Gogledd Cymru a lluniodd y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol yr ymatebion i bob awdurdod. (Copi yn Asesiad Anghenion). Roedd Sir y Fflint wedi derbyn 112 o ymatebion gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth, sylwer na fydd pob ymateb yn cyfateb yn ôl i 112 gan nad oedd pob holiadur yn orfodol.

Rhai o'r themâu a nodwyd o'r Holiadur Defnyddiwr Gwasanaeth oedd:

- 33% o ymatebwyr yn dweud nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad i gefnogaeth.
- Byddai'n well gan y mwyafrif o bobl dderbyn cefnogaeth wyneb yn wyneb.
- Roedd 53 o bobl yn dweud nad oedd unrhyw rwystrau iddynt dderbyn cefnogaeth.
- Roedd 99% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn gallu derbyn cefnogaeth yn eu dewis iaith
- Roedd 72% o ymatebwyr yn dweud bod cludiant cyhoeddus yn eu hatal rhag cael cefnogaeth.
- Roedd 38% o'r ymatebwyr yn graddio ansawdd llety yn ardderchog a 42% yn ei raddio'n dda.
- O'r ymatebion a dderbyniwyd ynglŷn â fforddio prisiau rhentu presennol - 34% efallai, 33% ddim a 33% yn gallu.

Themâu a nodwyd gan bartneriaid ac adrannau mewnol y cyngor oedd:

- Nid yw cyflenwad llety yn bodloni anghenion pobl, fel pobl sengl
- Diffyg mynediad i dai a thai fforddiadwy
- Mae mynediad i Syryp yn anodd iawn
- Recriwtio; nid yw llawer o swyddi gwag yn denu unrhyw ymgeiswyr neu nid yw'r ymgeiswyr yn addas.

5. Aseidiadau Effaith

Aseidiadau Effaith a gynhaliwyd:

- Aseiad Effaith Integredig (AEI) sy'n cynnwys cydraddoldeb, yr amgylchedd, iechyd, hawliau dynol, Dyletswydd economaidd-gymdeithasol, Confensiynau Cenhedloedd Unedig, Hawliau'r Plentyn a'r Gymraeg. Cafodd yr Aseiad Effaith ei gwblhau gan Swyddog GCT gyda chanllawiau gan Swyddog Datblygu Polisi Cydraddoldeb Sir y Fflint a'r Swyddog Bioamrywiaeth.
- Aseiad Effaith Diogelu Data - Cafodd hyn ei gwblhau gan Swyddog GCT gyda chanllawiau gan Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth Sir y Fflint.

Prif Ganfyddiadau

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol o'r Aseiad Effaith Diogelu Data na'r Aseiad Effaith Integredig a gynhaliwyd.

O ran yr Aseiad Effaith Integredig, nid yw unrhyw un wedi'i eithrio o unrhyw brosiect cymorth tai/digartrefedd oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig, crefydd cred, cyfeiriadedd rhywiol ac ati.

Fel rhanbarth, roeddem wedi comisiynu hyfforddiant LHDTC+ ar gyfer holl GCT/staff digartrefedd ac rydym hefyd yn ystyried comisiynu prosiect LHDTC+ rhanbarthol arall, rydym wedi ymgynghori gyda'r grŵp nodweddion a ddiogelir hwn i gael eu barn i sicrhau bod holl anghenion yn cael eu bodloni.

6. Gweithredu, Monitro ac Adolygu'r Strategaeth

Gweithio gyda Phartneriaid

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y strategaeth a'r cynlluniau gweithredu yn cael eu gweithredu a'u monitro yn unol â hynny ac adolygu a diwygio unrhyw gynlluniau ble bo'r angen yn seiliedig ar werthuso perfformiad. Mae yna hefyd gynrychiolaeth o'r gwasanaethau hyn ar y Grŵp Cynllunio Cymorth Tai ac RHSCG.

Ffynonellau Cyllid

Grant Cymorth Tai

Cyllid Craidd Statudol

Grant Tai Cymdeithasol

Grant Plant a Chymunedau

Trefniadau monitro, adolygu a gwerthuso

Bydd gan y Grŵp Cynllunio Cymorth Tai reolaeth gyffredinol o'r blaenoriaethau o fewn y Strategaeth gyda diweddariadau a ddarparwyd gan y Tîm GCT. Hefyd yn adrodd yn ôl i'r Prif Swyddog Tai ac RHSCG.

Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau yn manylu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu (Atodiad A).

Atodiad A - Cynllun Gweithredu: Blaenoriaeth 1

Mabwysiadu Ymyrraeth Fuan a Gweithgareddau Atal

Cam Gweithredu Cyf	Camau i'w cymryd i gyflawni'r flaenoriaeth	Tasgau	Amserlenni	Allbwn
7.1.1	Datblygu diwylliant ar draws holl wasanaethau cyhoeddus sy'n galluogi ymyrraeth fuan ac atal digartrefedd wedi'i dargedu.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Adolygu Fforwm Cymorth Tai Sir y Fflint a threfnu cyfarfod rheolaidd gyda phartneriaid yn chwarterol 2. Ymestyn Aelodaeth a hybu rhwydweithio cadarnhaol, canolbwynt gwybodaeth a chyfluoedd cyfathrebu ar gael drwy'r Fforwm Cymorth Tai. 3. Rhoi'r sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd ar waith ar draws ystod o bartneriaid fesul cam. 	2022	Gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau atal digartrefedd a thai cymorth a datblygu cymuned o arfer da o fewn Sir y Fflint.
7.1.2	Datblygu ystod o lwybrau a phrotocolau sy'n dangos trefniadau cydweithio yn glir gyda phartneriaid allweddol ynglŷn ag atal digartrefedd fel yr amlinellwyd yn y Ddeddf Tai (Cymru) 2014	<ol style="list-style-type: none"> 1. Dadansoddiad arferol o ddata i nodi'r cohort o bobl sydd mewn risg cynyddol sylweddol o galedi tai neu ddigartrefedd. 2. Nodi holl bartneriaid allweddol ble mae angen llwybrau a phrotocolau i gofnodi ymrwymadau a rhwymedigaethau ar gyfer cydweithio ar atal a rhyddhau digartrefedd. 3. Datblygu llwybrau a phrotocolau fel bo'r angen i sicrhau atebolrwydd ar gyfer holl wasanaethau cyhoeddus sy'n cyfrannu tuag at atal a rhyddhau digartrefedd 	2023	Cefnogaeth a dargedwyd ac ymyrraeth wedi'i nodi ar gyfer pobl mewn mwy o berygl o ddigartrefedd wedi'i sefydlu ac ymrwymadau clir gan bartneriaid ar gyfer cydweithio wedi'i sicrhau
7.1.3	Ailgomisiynu ystod eang o gefnogaeth cysylltiedig â thai a gwasanaethau atal digartrefedd drwy'r Grant Cymorth Tai	<ol style="list-style-type: none"> 1. Datblygu gallu staff o fewn y Tîm Comisiynu Grant Cymorth Tai drwy ailstrwythuro gwasanaeth 2. Cwblhau proses comisiynu ar raddfa fawr i holl wasanaethau a ariannwyd drwy Grant Cymorth Tai yn Sir y Fflint 3. Sicrhau trosglwyddo di-dor i drefniadau contract newydd gyda chyn lleied o effaith ar ddarparu gwasanaeth 	2023	Sicrhau bod gwasanaethau cefnogi tai Sir y Fflint yn gryf ac yn wydn ar gyfer heriau gerbron a bod ystod eang o wasanaethau ar gael i fodloni anghenion pobl Sir y Fflint.

Atodiad A - Cynllun Gweithredu: Blaenoriaeth 1

Mabwysiadu Ymyrraeth Fuan a Gweithgareddau Atal

Cam Gweithredu Cyf	Camau i'w cymryd i gyflawni'r flaenoriaeth	Tasgau	Amserlenni	Allbwn
7.1.4	Cynnig cefnogaeth i grwpiau cymunedol lleol sy'n darparu gweithgareddau sy'n cyfannu'r Rhaglen Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mapio allan holl grwpiau cymunedol lleol sy'n cyfrannu at y rhaglen cymorth tai a digartrefedd 2. Ymgysylltu â grwpiau lleol i sicrhau bod eu gwaith yn cyd-fynd â'r weledigaeth o roi terfyn ar ddigartrefedd a goresgyn problemau tai fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth hon 3. Cynnig cyngor a chefnogaeth i grwpiau lleol i sicrhau bod eu gwasanaethau yn hygyrch, cynaliadwy ac o ansawdd uchel 	2023	Sicrhau bod grwpiau cymunedol lleol yn cael eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau sy'n hybu ac yn galluogi byw'n annibynnol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol

Atodiad A - Cynllun Gweithredu: Blaenoriaeth 2

Cryfhau Dulliau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac Ymateb i Anghenion Cymhleth

Cam Gweithredu Cyf	Camau i'w cymryd i gyflawni'r flaenoriaeth	Tasgau	Amserlenni	Allbwn
7.2.1	Datblygu dull cydlynol i ymateb i gwsmeriaid gydag anghenion cymhleth.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Ymgysylltu â phartneriaid allweddol a chytuno ar fformat ar gyfer Panel Anghenion Cymhleth amlasiantaeth ar gyfer ymyrraeth gynnar a chefnogaeth amlasiantaeth 2. Adolygu gwaith y Rhaglen Allgymorth Pendant a dysgu gwersi ar sut i reoli anghenion cymhleth ac agor llwybrau ar gyfer cefnogaeth 3. Datblygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda meysydd gwasanaeth cyhoeddus allweddol i alluogi ymrwymadau cadarnhaol ar gyfer cydweithio ar faterion sy'n ymwneud ag anghenion cymhleth 	2022	Sicrhau bod holl bartneriaid yn gweithio i gefnogi pobl gydag anghenion cymhleth ac ymgysylltu'n effeithiol wrth weithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gadarnhaol
7.2.2	Datblygu dull cyson i gefnogi pobl ifanc i: (1) Osgoi digartrefedd (2) Bod yn barod am denantiaeth (3) Cynnal eu tenantiaeth	<ol style="list-style-type: none"> 1. Datblygu Cynllun Gweithredu Digartrefedd leuencid mewn partneriaeth gydag ystod eang o bartneriaid lleol 2. Hyfforddi ystod o weithwyr rheng flaen mewn cyrsiau hyfforddiant barod am denantiaeth i bobl ifanc 3. Ymestyn y Prosiect Tai yn Gyntaf i allu cynnig gwasanaeth penodol i Bobl Ifanc yn Sir y Fflint 	2022	Cynnig cynlluniau personol cadarn i bobl ifanc sydd yn cynnwys cymorth i gael mynediad i hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth a datrys unrhyw achosion o ddyled a rheoli materion ariannol.
7.2.3	Sicrhau nad yw unrhyw un sydd wedi cysgu allan yn flaenrol yn dychwelyd i ffordd o fyw ar y stryd	<ol style="list-style-type: none"> 1. Parhau i gefnogi pobl sydd wedi cysgu allan yn flaenrol ac sydd wedi cael cynnig tŷ dros dro yn ystod y pandemig Covid i'w helpu i symud ymlaen a gadael digartrefedd 2. Adeiladu ar lwyddiant cychwynnol y Prosiect Tai yn Gyntaf a chynyddu gallu i helpu mwy o bobl 3. Dysgu o lwyddiant y "canolbwynt digartrefedd" a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu a llywio darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol 	2022	Cynnal canlyniadau cadarnhaol a momentwm ynglŷn â rhyddhau digartrefedd o fewn y cohort cysgu allan ar ôl covid

Atodiad A - Cynllun Gweithredu: Blaenoriaeth 2

Cryfhau Dulliau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac Ymateb i Anghenion Cymhleth

Cam Gweithredu Cyf	Camau i'w cymryd i gyflawni'r flaenoriaeth	Tasgau	Amserlenni	Allbwn
7.2.4	Parhau i gynnig Datrysiadau Tai i bobl sy'n gadael carchar cyn eu rhyddhau er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gydweithio i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Cynyddu capasiti staff a gwasanaeth cymorth cysylltiedig â'r tîm Digartrefedd ar gyfer pobl sy'n gadael carchar a'r sawl â hanes o droseddu sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref 2. Parhau i gefnogi datblygiad Tasglu Atal Digartrefedd Gogledd Cymru 3. Cryfhau cysylltiadau gyda'r Gwasanaeth Prawf ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach o amgylch llety a gwasanaethau cynnal 	2022	Cefnogi mwy o bobl sy'n gadael carchar i osgoi digartrefedd neu ei adael yn sydyn ar ôl rhyddhau.
7.2.5	Datblygu sail gwybodaeth sy'n adeiladu ar Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru "Cysgu Allan yng Nghymru - Problem Pawb; Cyfrifoldeb Neb' i ddangos budd cost mynd i'r afael ag anghenion cymhleth yn Sir y Fflint.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Ymgysylltu â phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus allweddol mewn trafodaethau am ddatblygu'r sail tystiolaeth 2. Cytuno ar fethodoleg ar gyfer cipio data a chostau darparu gwasanaeth cysylltiedig ag achosion anghenion cymhleth 3. Cipio'r dystiolaeth cysylltiedig â chostau rheoli anghenion cymhleth a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol ac ymyrraeth a dargedwyd. 	2023	Deall y costau cysylltiedig â digartrefedd yn well a budd costau ar gyfer holl wasanaethau cyhoeddus.

Atodiad A - Cynllun Gweithredu: Blaenoriaeth 3

Datblygu'r Rhaglen TrACE

Cam Gweithredu Cyf	Camau i'w cymryd i gyflawni'r flaenoriaeth	Tasgau	Amserlenni	Allbwn
7.3.1	Gweithio gyda chymorth tai a digartrefedd a gwasanaethau atal i ddatblygu darpariaeth gwasanaeth ymwybodol o ACE a thrawma.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Recriwtio Pencampwr TrACE a chynnwys o fewn tîm Comisiynu Grant Cymorth Tai Sir y Fflint 2. Gweithio gyda gwasanaethau mewnol ac a gomisiynwyd i gynnal y broses hunan-asesu TrACE 3. Cefnogi gwasanaethau i ymateb i ganfyddiadau eu hunanasesiad 	2022	Gwasanaethau lleol yn gweithio tuag at fod yn deall trawma yn well ac ymwybyddiaeth ACE yn eu gwasanaeth.
7.3.2	Sicrhau cynnydd ar ddatblygu'r Rhaglen TrACE yn cael ei gipio a'i ddathlu o fewn cymorth tai a gwasanaethau atal digartrefedd.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Datblygu cyfleoedd i adolygu cynnydd mewn perthynas â'r Rhaglen TrACE drwy Gontractau a phroses Adolygu ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd drwy Grant Cymorth Tai 2. Archwilio cyfleoedd i gydnabod a dathlu'r cynnydd ac effaith Rhaglen TrACE yn Sir y Fflint 	2023	Mae Rhaglen TrACE yn gweithio'n effeithiol ac o fudd i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Sicrhau bod llwyddiant yn cael ei ddathlu.

Atodiad A - Cynllun Gweithredu: Blaenoriaeth 4

Cefnogi Datblygu'r Gweithlu a Gwynwch

Cam Gweithredu Cyf	Camau i'w cymryd i gyflawni'r flaenoriaeth	Tasgau	Amserlenni	Allbwn
7.4.1	Archwilio cyfleoedd i weithio gyda gwasanaethau a gomisiynwyd i ddatblygu dull cyson ar gyfer telerau ac amodau cyflogaeth i sicrhau y gall gwasanaethau Sir y Fflint gynnal a denu gweithlu medrus.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Ymgysylltu â gwasanaethau a gomisiynwyd mewn trafodaethau am delerau ac amodau staff a chefnogaeth gweithlu 2. Gweithio gyda gwasanaethau a gomisiynwyd i ddatblygu negeseuon a rannwyd, cyfleoedd cynlluniau cyfathrebu ar gyfer cydweithio i recriwtio gweithlu 	2022	Cynnal a denu gweithlu medrus priodol.
7.4.2	Datblygu ystod o hyfforddiant, datblygu staff a chefnogaeth lles ar draws holl gefnogaeth cysylltiedig â thai a gwasanaethau atal digartrefedd.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlu is-grŵp "Lles Gweithlu" o'r Fforwm Cymorth Tai 2. Datblygu cynllun gweithredu a rennir ar gyfer "Lles Gweithlu" ar draws cymorth tai a gwasanaethau atal digartrefedd yn Sir y Fflint 	2022	Mae staff wedi eu hyfforddi i'r lefel briodol ar gyfer cefnogi pobl sy'n dod drwy ein gwasanaethau.
7.4.3	Cydnabod ansawdd y gwaith a safonau uchel proffesiynoldeb o fewn y gweithlu a sicrhau bod ymrwymadau staff yn cael eu gwobrwyo.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Datblygu Cynllun Cydnabod Gweithlu ar gyfer holl wasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai o fewn Sir y Fflint 2. Hybu llwyddiant y sector atal digartrefedd a chymorth tai yn Sir y Fflint a dathlu cyflawniadau ein gweithlu 	2023	Cadw a chydabod staff i wella morâl y gweithlu.

Atodiad A - Cynllun Gweithredu: Blaenoriaeth 5

Adolygu a gwella Cynnig Tai Sir y Fflint

Cam Gweithredu Cyf	Camau i'w cymryd i gyflawni'r flaenoriaeth	Tasgau	Amserlenni	Allbwn
7.5.1	Cwblhau adolygiad o gynnis llety Digartrefedd Sir y Fflint ac archwilio cyfleoedd i ddatblygu Canolfan Ddigartrefedd a ddatblygwyd yn bwrpasol.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Darparu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth Llety Dros Dro (Ymateb Archwilio) 2. Datblygu cynlluniau at ddiben adeiladu Canolfan Ddigartrefedd a adeiladwyd yn bwrpasol gyda llety a gwasanaethau cymorth o dan un to (Glanrafon fersiwn 2.0) 	2023	Gwella ansawdd llety a rheoli eiddo o fewn portffolio llety Digartrefedd Sir y Fflint.
7.5.2	Gwella safon llety o fewn portffolio Tai Cymorth Sir y Fflint.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Gweithio gyda gwasanaethau presennol i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella llety a buddsoddiad 2. Datblygu Safon Sir y Fflint ar gyfer llety o ansawdd o fewn Portffolio Tai a Chymorth Sir y Fflint 3. Sicrhau bod gwasanaethau newydd a gomisiynir drwy Grant Cymorth Tai â chynnig llety o ansawdd uchel 4. Llunio cynlluniau ar gyfer datblygu canolfan dai pobl ifanc drwy gynnis ystod o lety a gwasanaethau cymorth 	2023	Codi safonau llety yn ein Portffolio Tai â Chymorth.
7.5.3	Gweithio gyda phartneriaid tai i sicrhau bod stoc tai cymdeithasol Sir y Fflint yn bodloni anghenion preswylwyr Sir y Fflint.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Archwilio cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o dai cymdeithasol presennol gan roi ystyriaeth i ail-ddynodi tai os bydd angen 2. Adolygu dulliau ar gyfer "polisiau gosod lleol" i sicrhau nad ydynt yn creu rhwystrau gormodol ar gyfer ailgartrefu a bodloni anghenion holl breswylwyr Sir y Fflint. 3. Gweithio gyda phartneriaid tai i edrych ar fodelau tai a rennir o fewn tai cymdeithasol 4. Darparu Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol a chynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol 	2023	Cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a sicrhau bod y stoc sydd gennym yn diwallu'r galw lleol.

Atodiad A - Cynllun Gweithredu: Blaenoriaeth 5

Adolygu a gwella Cynnig Tai Sir y Fflint

Cam Gweithredu Cyf	Camau i'w cymryd i gyflawni'r flaenoriaeth	Tasgau	Amserlenni	Allbwn
7.5.4	Datblygu Cynnig Sector Rhentu Preifat Sir y Fflint.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Creu Tîm Tai Sector Preifat arbenigol o fewn y Gwasanaeth Atal Digartrefedd a Chymorth Tai 2. Ymgysylltu â Landlordiaid i ddeall eu hanghenion a dyheadau ar gyfer PRS Sir y Fflint yn well 3. Cofrestru ar gyfer y Cynllun Prydlesu Sector Rhentu Preifat Cenedlaethol. 	2023	Cynnig mwy o wasanaethau a chefnogaeth i denantiaid a landlordiaid o fewn y sector rhentu preifat lleol.

Atodiad A - Cynllun Gweithredu: Blaenoriaeth 6

Ailgartrefu Cyflym

Cam Gweithredu Cyf	Camau i'w cymryd i gyflawni'r flaenoriaeth	Tasgau	Amserlenni	Allbwn
7.6.1	Datblygu'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym ar gyfer Sir y Fflint.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlu Gweithgor Ailgartrefu Cyflym amlasiantaeth 2. Ymgynghori gyda'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau i sicrhau bod ein Cynlluniau yn bodloni eu hanghenion ac yn cael eu llywio gan brofiad byw. 3. Mabwysiadu'r Cynllun Pontio a dechrau cyfnod o drawsnewid 	2022	Cynllun clir ar gyfer symud i Ailgartrefu Cyflym yn Sir y Fflint.
7.6.2	Datblygu'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf ymhellach ar gyfer Sir y Fflint.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Cynyddu capasiti o fewn y gwasanaeth Tai yn Gyntaf i gefnogi mwy o bobl ag anghenion cymhleth a hanes o gysgu allan i adael digartrefedd 2. Datblygu model Tai yn Gyntaf Pobl Ifanc ar gyfer Sir y Fflint 	2022	Cefnogi mwy o bobl i dai sefydlog hirdymor drwy Fodel Tai yn Gyntaf.

Atodiad B Cynllun Ailgartrefu Cyflym

Cytunwyd gan Lywodraeth Cymru y gall y Cynllun Pontio Ail-gartrefu Cyflym gael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2022.